

## Coleg Catholig Dewi – Amodau Contract Safonol

Mae "Nwyddau" yn cynnwys deunyddiau. Mae "Gwerthwr" yn cynnwys y cyflenwr/darparwr gwasanaeth/ contractwr gwaith. Defnyddir "gwasanaethau a gwaith" yn ei ystyr naturiol ehangaf ac at bwrpas yr Archeb hwn bydd cyfeirio at wasanaethau yn cynnwys cyfeirio at waith. Ystyr "Archeb" ydy'r archeb y mae'r Coleg yn ei rhoi am y cyfryw Nwyddau neu'r Gwasanaethau.

### Nwyddau a Gwasanaethau

1. Yn amodol ar amod 9 isod, **o dderbyn yr Archeb hwn bydd y gwerthwr yn dangos ei fod yn derbyn y telerau a'r amodau hyn.**
2. Rhaid dyfynnu rhif yr Archeb ar bob nodyn cyflenwi, pob anfoneb a gohebiaeth.
3. Ni thelir am nwyddau na gwasanaeth oni bydd y nwyddau a neu'r gwasanaethau wedi'u darparu yn unol â thelerau'r Gorchymyn a bod anfoneb wedi'i chyflwyno. Os bydd yr Archeb yn nodi y dylid anfon yr anfoneb i gyfeiriad gwahanol i'r un y mae'r nwyddau wedi'u hanfon neu'n wahanol i'r un lle cyflawnwyd y gwasanaethau, ni thelir un rhyw dâl nes i'r anfoneb gael ei derbyn yn y cyfeiriad priodol.
4. Rhaid ymgynghori a chytuno ar unrhyw amrywiad hysbys yn y pris, ansawdd neu faint i'r hyn a nodwyd ar wyneb ddalen yr Archeb dan sylw cyn i'r nwyddau gael eu hanfon neu'r gwasanaethau gael eu cyflawni – fel arall ni thelir unrhyw dâl.
5. Gwneir y taliad i'r gwerthwr a enwir ar yr Archeb yn unig neu drwy drefniant arbennig gellir gwneud y taliad i enwebai'r gwerthwr (e.e. ffactor).
6. Bydd y gwerthwr yn defnyddio pob sgil, gofal a diwydrwydd hyd eithaf ei allu i gyflawni'r contract. Bydd yr holl nwyddau neu wasanaethau a gyflenwir yn cydymffurfio â safon uchaf y Sefydliad Safonau Prydeinig (neu safonau cyfwerth Ewropeaidd) ar gyfer y math hwnnw o nwyddau neu wasanaethau oni bai naill ai (a) y cytunir ar ryw safon is neu (b) bod y gwerthwr yn hysbysu'r Coleg nad oedd safon perthnasol ac yn yr achos hwnnw, bydd y nwyddau a'r gwasanaethau yn cydymffurfio â safon gorau'r diwydiant ac yn y naill achos a'r llall mae'r Coleg yn cytuno â hyn yn ysgrifenedig cyn cytuno i dderbyn yr Archeb.
7. Ni fydd y gwerthwr yn trosglwyddo budd yr Archeb neu'r contract i unrhyw unigolyn arall heb ganiatâd ysgrifenedig y Coleg ac ni fydd, wrth gyflenwi gwasanaethau neu nwyddau, yn gwneud dim i ddwyn gwarth ar enw da'r Coleg.
8. Rhaid i'r Coleg gadarnhau yn ysgrifenedig unrhyw ildio hawl neu welliannau i unrhyw un o'r telerau hyn ac, fel arall, ni fydd mewn grym ac ni fydd unrhyw ildio hawl neu welliant ar un achlysur yn golygu bod yr ildio hawl neu welliant yn dal mewn grym neu a gytunir ar achlysur arall.
9. **Ni fydd "amodau a telerau safonol" y Gwerthwr yn berthnasol i'r Archeb dan sylw.**  
Mae'r dogfennau canlynol yn cynnwys y cyfan o'r cytundeb rhwng y Coleg a'r Gwerthwr; ni fydd y telerau hyn, nac unrhyw amodau tendro a gyhoeddgar gan y Coleg nac unrhyw delerau y mae'r Coleg yn eu nodi neu'n cyfeirio atyn nhw ar wyneb ddalen yr Archeb, ac eithrio'r hyn sy'n cael ei ddweud yn y frawddeg ganlynol, yn berthnasol i unrhyw amod neu amodau eraill boed ar lafar neu yn ysgrifenedig. Os digwydd bod y contract ysgrifenedig gwasanaethau, gwaith neu nwyddau penodol o ran y gwasanaethau neu'r nwyddau sy'n destun yr archeb **wedi'i baratoi gan Coleg, a gwasanaethau cymeradwy cyfreithiol y Coleg wedi'i gymeradwyo a llofnodwr awdurdodedig y Coleg wedi'i arwyddo**, yna amodau'r cyfryw gontract ysgrifenedig penodol fydd drechaf. Gwerthwyr sydd yn gyfrifol am wirio pwy yn y Coleg sydd wedi'i awdurdodi'n briodol i lofnodi archebion/cytundebau.
10. Mae'r contract dan awdurdod cyfraith Lloegr a Chymru ac mae'r partion yn ddarostyngedig i awdurdodaeth eclesiwsif llysoedd Lloegr a Chymru.

### Nwyddau

11. Dylid cyflenwi'r nwyddau, gyda'r cludiant wedi'i dalu, i'r lleoliad a nodir ar wyneb ddalen yr Archeb neu gallen nhw gael eu gwrthod.
12. Bydd y Gwerthwr yn cael derbynneb am yr holl nwyddau a gyflenwir ac ar gais yn cyflwyno copi i'r Coleg, ac os na wneir hyn, ni fydd gorfodaeth ar y Coleg i dalu am y nwyddau nes darperir tystiolaeth bod popeth wedi cael ei gyflenwi.
13. Os nodir amser cyflenwi/neu ddyddiad ar yr Archeb, bydd yr amser a dyddiad y cyflenwi yn amod hanfodol o'r contract. Os na nodir dyddiad cyflenwi ar yr Archeb, cyflenwir y nwyddau am 3.00pm ar y 7fed diwrnod yn dilyn dyddiad yr Archeb a'r dyddiad hwnnw fydd amod hanfodol y contract. Yn yr achos olaf hwn os bydd y 7fed diwrnod yn digwydd pan fydd y Coleg ar gau, yna y diwrnod canlynol fydd y dyddiad cyflenwi pan fydd swyddfeydd y Coleg ar agor. Cyfrifoldeb y gwerthwr fydd hi i ddarganfod pryd mae swyddfeydd y Coleg ar agor.
14. Eiddo'r Coleg fydd y nwyddau a'r deunyddiau ar ôl iddyn nhw gael eu cyflenwi o ran yr Archeb hon. Fodd bynnag, os gwneir taliad neu ran-daliad gyda'r Archeb hon neu ymlaen llaw cyn y cyflenwi, bydd y nwyddau yn dod yn eiddo i'r Coleg ar adeg y telir amdany'n nhw. Ar ôl i'r eiddo gael ei drosglwyddo i'r coleg, ni fydd gan y gwerthwr unrhyw hawlryw (lien) nac unrhyw hawl arall o ran y nwyddau na'r deunyddiau.
15. Ystyrir bod y prisiau a ddyfynnir gan y gwerthwr yn cynnwys taliadau cyflenwi, pecynnu a dadlwytho oni bai y nodir yn glir i'r gwrthwyneb yn ysgrifenedig i'r Coleg.
16. Os bydd y gwerthwr angen i balet o'r deunydd pecynnu gael ei ddychwelyd nodir hyn yn glir ar y nodyn cyflenwi neu fel arall bydd gan y Coleg ryddid i'w ail-ddefnyddio neu ei waredu fel y tyb orau heb orfod dweud wrth y gwerthwr.
17. Rhaid i unrhyw nwyddau na fydd yn cydymffurfio â'r disgrifiad a nodwyd yn yr Archeb gael eu symud o adeiladau'r Coleg gan y gwerthwr ar draul y gwerthwr o fewn 48 awr i'r cyflenwi ac os na fydd y gwerthwr yn gwneud hyn gallai'r Coleg drefnu bod y nwyddau'n cael eu dychwelyd ar draul y gwerthwr. Os nodir nad yw'r nwyddau yn matsio'r disgrifiad yn yr Archeb ar adeg y cyflenwi neu'r ymgais i gyflenwi, caiff unrhyw nwyddau eu symud ar unwaith o adeiladau'r coleg ar gost y gwerthwr.
18. Cywirir unrhyw golled, difrod i neu ddiffyg yn y nwyddau, na achoswyd gan y Coleg, gan y gwerthwr ar ei gost ei hun o fewn 14 diwrnod o dderbyn rhybudd ysgrifenedig am hyn gan y Coleg.
19. Bydd unrhyw nwyddau peryglus yn cael eu marcio'n glir gan y gwerthwr gyda'r symbol rhyngwladol yn dynodi perygl ynghyd ag enw'r deunydd yn Saesneg. Bydd pecynnau fel hyn hefyd yn cael eu labelu a'u cludo yn unol â chyfraith y DU neu â chytundebau rhyngwladol derbyniol. Rhoddir gwybodaeth yn Saesneg am sut i storio ac am y defnydd priodol o nwyddau o'r fath wrth eu cyflenwi. Drwy hyn, mae'r gwerthwr yn digolledu'r Coleg yn erbyn unrhyw golled, niwed neu anaf a berir i'r Coleg, neu i unrhyw un o'i weision neu asiantwyr os na fydd y gwerthwr yn cydymffurfio â'r amod hwn.
20. Ni fydd taliad llawn neu ran-daliad am y nwyddau gan y Coleg yn dynodi bod y Coleg yn derbyn disgrifiad maint nac ansawdd y nwyddau a archebwyd ac ni fydd y cyfryw daliad yn golygu y niweidir hawl y Coleg i wrthod nwyddau o'r fath ar ddyddiad diweddarach.

### Gwasanaethau

21. Bydd y gwerthwr yn darparu'r holl lafur, offer a chyfarpar gwaith i gyflawni'r gwasanaeth.
22. Cyfrifoldeb y gwerthwr fydd sicrhau cadarnhad ysgrifenedig o gyfarwyddiadau llafar am y gwaith.
23. Bydd y gwerthwr yn darparu'r gwasanaeth yn ystod oriau gwaith arferol.
24. Bydd y gwerthwr yn cywiro unrhyw ddiffygion sy'n bodoli ac a ddaw i'r goleg 12 mis ar ôl cwblhau'r gwasanaeth ar ei draul ei hun.
25. Bydd y gwerthwr yn cadw cofnod digonol a chywir o'r gwasanaeth a gyflawnwyd gan gynnwys yr amser cywir a bydd hyn yn cael ei gyflwyno i'r Coleg ar ddiwedd bob wythnos y cyflawnir y gwasanaeth neu ar adegau y cytunir yn ysgrifenedig arny'n nhw.
26. Bydd y gwerthwr yn darparu tystiolaeth o statws treth yn ôl y galw.
27. Bydd y gwerthwr yn cadw'r gweithle yn lân a thacius a bydd yn symud unrhyw nwyddau neu wastraff sy'n weddill yn rheolaidd.
28. Ystyrir bod y prisiau a dyfynnwyd gan y gwerthwr yn cynnwys costau teithio a chynhaliath y gwerthwr oni bai y cytunwyd fel arall.
29. Bydd y gwerthwr yn meddu ar bob yswiriant perthnasol yn ymwneud â darparu'r gwasanaethau.